



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2013 Rhif 3207 (Cy. 317)**

**2013 No. 3207 (W. 317)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid  
(Hylendid a Gorfodi) a Bwyd  
Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio)  
2013

The Feed (Hygiene and  
Enforcement) and the Animal Feed  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2013

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 225/2012 sy'n diwygio Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cymeradwyo sefydliadau sy'n gosod ar y farchnad, at ddefnydd bwyd anifeiliaid, gynnyrch sy'n deillio o olewau llysiâu a brasterau cyfunol ac o ran y gofynion penodol ar gyfer cynhyrchu, storio, cludo a phrofi diocsinau olewau, brasterau a chynnyrch sy'n deillio ohonynt (OJ Rhif L77, 16.3.2012, t.1) ("Rheoliad 225/2012").

1. These Regulations provide for the execution and enforcement of Commission Regulation (EU) No. 225/2012 amending Annex II to Regulation (EC) No. 183/2005 of the European Parliament and of the Council as regards the approval of establishments placing on the market, for feed use, products derived from vegetable oils and blended fats and as regards the specific requirements for production, storage, transport and dioxin testing of oils, fats and products derived thereof (OJ No. L77, 16.3.2012, p.1) ("Regulation 225/2012").

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/3368 (Cy.265)) drwy —

2. These Regulations amend the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/3368 (W.265)) by —

- (a) ailddatgan y diffiniad o Reoliad (EC) Rhif 183/2005 er mwyn iddo, yn rhinwedd adran 20A o Ddeddf Dehongli 1978, gynnwys y diwygiadau a wnaed gan Reoliad 225/2012 (*rheoliad 2(2)*);
- (b) darparu bod unrhyw gyfeiriad yn O.S. 2005/3280 at Atodiad i Reoliad (EC) Rhif 183/2005 i'w dehongli fel cyfeiriad at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd (*rheoliad 2(3)*);
- (c) dynodi'r awdurdodau cymwys at ddibenion gorfodi darpariaethau penodol Rheoliad 225/2012 (*rheoliad 2(4)*); a
- (d) darparu ar gyfer ffioedd sy'n daladwy am gymeradwyaethau sefydliadau penodedig (*rheoliad 2(5) ac Atodlen 1*).

- (a) re-stating the definition of Regulation (EC) No 183/2005 so that, by virtue of section 20A of the Interpretation Act 1978, it includes the amendments made by Regulation 225/2012 (*regulation 2(2)*);
- (b) providing that any reference in S.I. 2005/3280 to an Annex to Regulation (EC) No 183/2005 is to be construed as a reference to that Annex as it may be amended from time to time (*regulation 2(3)*);
- (c) designating the competent authorities for the purposes of enforcing certain provisions of Regulation 225/2012 (*regulation 2(4)*); and
- (d) providing for the fee to be paid for approval of specified establishments (*regulation 2(5) and Schedule 1*).

3. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2652 (Cy.220)) drwy —

- (a) dileu'r cyfeiriadau at un o offerynnau'r UE sydd wedi ei ddi-ddymu (*rheoliad 3(2)*); a
- (b) gwneud yn fwy eglur eiriad y darpariaethau gorfodi sy'n ymwneud â Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar osod bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'r defnydd ohono (OJ Rhif L229, 1.9.2009, t.1) (*rheoliad 3(3) a (4) ac Atodlen 2*).

4. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Llawr 11, Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW.

3. These Regulations also amend the Animal Feed (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/2652 (W.220)) by —

- (a) removing references to an EU instrument which has been repealed (*regulation 3(2)*); and
- (b) clarifying the drafting of enforcement provisions relating to Regulation (EC) No 767/2009 of the European Parliament and of the Council on the placing on the market and use of feed (OJ No. L229, 1.9.2009, p.1) (*regulation 3(3) and (4) and Schedule 2*).

4. The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Food Standards Agency at Food Standards Agency Wales, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

**2013 Rhif 3207 (Cy. 317)**

**2013 No. 3207 (W. 317)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid  
(Hylendid a Gorfodi) a Bwyd  
Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio)  
2013**

**The Feed (Hygiene and  
Enforcement) and the Animal Feed  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2013**

*Gwnaed* 18 Rhagfyr 2013

*Made* 18 December 2013

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 19 Rhagfyr 2013

*Laid before the National Assembly for Wales*  
19 December 2013

*Yn dod i rym* 12 Ionawr 2014

*Coming into force* 12 January 2014

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 2(2) of and paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972(1).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(2), mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer amddiffyn iechyd y cyhoedd(3) a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu a fwydir iddynt(4), fel y'i darllenir gyda pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

The Welsh Ministers are designated for the purposes of that section in relation to measures relating to the common agricultural policy of the European Union(2), measures in the veterinary and phytosanitary fields for the protection of public health(3) and measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals(4), as read with paragraph 1A of Schedule 2 to that Act.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weiniogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at yr Atodiadau i offeryn yr UE a grybwyllir yn rheoliad 2(3) a 3(2)(b) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr Atodiadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to the Annexes to the EU instrument mentioned in regulation 2(3) and 3(2)(b) to be construed as references to those Annexes as they may be amended from time to time.

---

(1) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51) ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (2008 p.7).

(2) O.S. 2010/2690.

(3) O.S. 2008/1792.

(4) O.S. 2005/1971.

---

(1) 1972 c.68. Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (2006 c.51) and has been amended by section 3(3) of and the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (2008 c.7).

(2) S.I. 2010/2690.

(3) S.I. 2008/1792.

(4) S.I. 2005/1971.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(1).

## Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2013, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 12 Ionawr 2014.

## Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005

2.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005(2) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn lle'r diffiniad o "Rheoliad 183/2005" rhodder y diffiniad a ganlyn—

“ystyr “Rheoliad 183/2005” (“*Regulation 183/2005*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 183/2005 12 Ionawr 2005 sy'n gosod gofynion o ran hylendid bwyd anifeiliaid(3);”.

(3) Ar ôl paragraff (4) o reoliad 2, ychwaneger y paragraff a ganlyn —

“(5) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Atodiad i Reoliad 183/2005 yn gyfeiriad at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.”.

(4) Yn lle rheoliad 4 (awdurdodau cymwys) rhodder y rheoliad a ganlyn —

There has been open and transparent public consultation during the preparation of these Regulations in accordance with the requirements of Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(1).

## Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Feed (Hygiene and Enforcement) and the Animal Feed (Wales) (Amendment) Regulations 2013, they apply in relation to Wales and come into force on 12 January 2014.

## Amendment of the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005

2.—(1) The Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005(2) are amended in accordance with paragraphs (2) to (5).

(2) In paragraph (1) of regulation 2 (interpretation), for the definition of “Regulation 183/2005” substitute the following definition —

““Regulation 183/2005” (“*Rheoliad 183/2004*”) means Regulation (EC) No. 183/2005 of 12 January 2005 laying down requirements for feed hygiene(3);”.

(3) After paragraph (4) of regulation 2, add the following paragraph —

“(5) Any reference in these Regulations to an Annex to Regulation 183/2005 is a reference to that Annex as it may be amended from time to time.”.

(4) For regulation 4 (competent authorities) substitute the following regulation —

---

(1) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468 o ran y weithdrefn reoleiddiol ynghyd â chraffu: addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol ynghyd â chraffu – Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

(2) O.S. 2005/3368. Mae'r offeryn hwn wedi cael ei ddiwygio gan O.S. 2006/3256 (Cy.296), O.S. 2009/3376 (Cy.298), O.S. 2010/2287 (Cy.199) ac O.S. 2010/2652 (Cy.220).

(3) Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 225/2012 sy'n diwygio Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cymeradwyo sefydliadau sy'n gosod ar y farchnad, at ddefnydd bwyd anifeiliaid, gynnyrch sy'n deillio o olewau llysiau a brasterau cyfunol ac o ran y gofynion penodol ar gyfer cynhyrchu, storio, cludo a phrofi diocsinau olewau, brasterau a chynnyrch sy'n deillio ohonynt (OJ Rhif L77, 16.3.2012, p.1).

---

(1) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Regulation (EC) No. 596/2009 of the European Parliament and of the Council adapting a number of instruments subject to the procedure referred to in Article 251 of the Treaty to Council Decision 1999/468 with regard to the regulatory procedure with scrutiny: adaptation to the regulatory procedure with scrutiny – Part Four (OJ No. L188, 18.7.2009, p.14).

(2) S.I. 2005/3368. This instrument has been amended by S.I. 2006/3256 (W.296), S.I. 2009/3376 (W.298), S.I. 2010/2287 (W.199) and S.I. 2010/2652 (W.220).

(3) This Regulation was last amended by Commission Regulation (EU) No. 225/2012 amending Annex II to Regulation (EC) No. 183/2005 of the European Parliament and of the Council as regards the approval of establishments placing on the market, for feed use, products derived from vegetable oils and blended fats and as regards the specific requirements for production, storage, transport and dioxin testing of oils, fats and products derived thereof (OJ No. L77, 16.3.2012, p.1).

“4.—(1) Yr awdurdodau cymwys at ddibenion Erthyglau Rheoliad 183/2005 yw —

- (a) mewn cysylltiad ag Erthyglau 9(1) a (3), 18(3), 20(2), 21(1) a 22(2)(b), yr Asiantaeth a'r awdurdod gorfodi;
- (b) mewn cysylltiad ag Erthyglau 7, 9(2), 10, 13, 14, 15, 16, 17, 18(1), (2) a (4) a 19(2), yr awdurdod gorfodi; ac
- (c) mewn cysylltiad ag Erthygl 19(1), yr Asiantaeth.

(2) Yr awdurdodau cymwys at ddibenion yr adran sy'n dwyn y pennawd “Monitro Diocsinau” yn Atodiad II i Reoliad 183/2005 yw —

- (a) mewn cysylltiad â pharagraff 2(e), yr awdurdod gorfodi; a
- (b) mewn cysylltiad â pharagraff 7, yr awdurdod gorfodi a'r Asiantaeth.”.

(5) Yn lle cynnwys Atodlen 2 (ffioedd sy'n daladwy am gymeradwyaethau) rhodder cynnwys Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

### **Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010**

3.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010(1) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli a chwmpas) —

- (a) ym mharagraff (1), hepgorer y diffiniad o Rheoliad 242/2010; a
- (b) yn lle paragraff (3) rhodder y paragraff a ganlyn —

“(3) Mae unrhyw gyfeiriad at Atodiad i Gyfarwyddeb 82/475, Cyfarwyddeb 2002/32, Cyfarwyddeb 2008/38 neu Reoliad 767/2009 yn gyfeiriad at yr Atodiad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.”.

(3) Yn lle paragraff (1) o reoliad 4 (gorfodi gofynion Rheoliad 767/2009), rhodder y paragraff a ganlyn —

“4.—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a geir yn Erthygl 32, mae unrhyw berson —

- (a) sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau Rheoliad 767/2009 a bennir yn Atodlen 1 neu'n methu â chydymffurfio â hwy; neu
- (b) sy'n gosod ar y farchnad neu sy'n defnyddio unrhyw fwyd anifeiliaid sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 6(1) neu 8,

---

(1) O.S. 2010/2652 (Cy.220).

“4.—(1) The competent authorities for the purposes of the Articles of Regulation 183/2005 are —

- (a) in respect of Articles 9(1) and (3), 18(3), 20(2), 21(1) and 22(2)(b), the Agency and the enforcement authority;
- (b) in respect of Articles 7, 9(2), 10, 13, 14, 15, 16, 17, 18(1),(2) and (4) and 19(2), the enforcement authority; and
- (c) in respect of Article 19(1), the Agency.

(2) The competent authorities for the purposes of the section headed “Dioxin Monitoring” in Annex II to Regulation 183/2005 are —

- (a) in respect of paragraph 2(e), the enforcement authority; and
- (b) in respect of paragraph 7, the enforcement authority and the Agency.”.

(5) For the content of Schedule 2 (fees payable for approvals) substitute the content of Schedule 1 to these Regulations.

### **Amendment of the Animal Feed (Wales) Regulations 2010**

3.—(1) The Animal Feed (Wales) Regulations 2010(1) are amended in accordance with paragraphs (2) to (4).

(2) In regulation 2 (interpretation and scope) —

- (a) in paragraph (1), omit the definition of Regulation 242/2010; and
- (b) for paragraph (3) substitute the following paragraph —

“(3) Any reference to an Annex to Directive 82/475, Directive 2002/32, Directive 2008/38 or Regulation 767/2009 is a reference to that Annex as it may be amended from time to time.”.

(3) For paragraph (1) of regulation 4 (enforcement of requirements of Regulation 767/2009), substitute the following paragraph —

“4.—(1) Subject to the transitional provisions contained in Article 32, any person who —

- (a) contravenes or fails to comply with the provisions of Regulation 767/2009 specified in Schedule 1; or
- (b) places on the market or uses any feed that fails to comply with Article 6(1) or 8,

---

(1) S.I. 2010/2652 (W.220).

yn euog o dramgwydd.”.

(4) Yn lle cynnwys Atodlen 1 (darpariaethau penodedig Rheoliad 767/2009) rhodder cynnwys Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

is guilty of an offence.”.

(4) For the content of Schedule 1 (specified provisions of Regulation 767/2009) substitute the content of Schedule 2 to these Regulations.

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

18 Rhagfyr 2013

18 December 2013

“ATODLEN 2

FFIOEDD SY’N DALADWY AM  
GYMERADWYAETHAU

“SCHEDULE 2

FEE PAYABLE FOR  
APPROVALS

<i>Gweithgaredd y mae'n ofynnol i'r sefydliad gael cymeradwyaeth ar ei gyfer</i>	<i>Ffi (£)</i>
Gweithgynhyrchu'n unig sylweddau y cyfeirir atynt yn Erthygl 10(1)(a) neu (b) o Reoliad 183/2005, neu eu gweithgynhyrchu a'u gosod ar y farchnad ac eithrio'r ychwanegion bwyd anifeiliaid hynny a bennir yn rheoliad 2(3), neu rag-gymysgeddau o'r cyfryw ychwanegion	451.00
Gosod ar y farchnad sylweddau y cyfeirir atynt yn Erthygl 10(1)(a) neu (b) o Reoliad 183/2005 ac eithrio'r ychwanegion bwyd anifeiliaid hynny a bennir yn rheoliad 2(3), neu rag-gymysgeddau o'r cyfryw ychwanegion	226.00
Unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau y cyfeirir atynt ym Mhwynt 10 o'r Adran sy'n dwyn y pennawd "Cyfleusterau ac Offer" yn Atodiad II i Reoliad 183/2005	451.00"

<i>Activity requiring approval of establishment</i>	<i>Fee (£)</i>
Manufacture only, or manufacture and placing on the market, of substances referred to in Article 10(1)(a) or (b) of Regulation 183/2005 other than those feed additives specified in regulation 2(3), or of premixtures of such additives	451.00
Placing on the market of substances referred to in Article 10(1)(a) or (b) of Regulation 183/2005 other than those feed additives specified in regulation 2(3), or of premixtures of such additives	226.00
Any of the activities referred to at Point 10 of the Section headed "Facilities and Equipment" in Annex II to Regulation 183/2005	451.00"



ATODLEN 2 Rheoliad 3(4)

“ATODLEN 1 Rheoliad 4(1)  
Darpariaethau Penodedig Rheoliad  
767/2009

<i>Y ddarpariaeth benodedig</i>	<i>Y pwnc</i>
Erthygl 4(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 4(3) ac Atodiad I	Gofynion diogelwch cyffredinol a gofynion eraill sydd i'w bodloni pan osodir bwyd anifeiliaid ar y farchnad neu pan ddefnyddir ef
Erthygl 5(1)	Estyn y gofynion mewn perthynas â bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd mewn deddfwriaeth arall i fod yn gymwys i fwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd
Erthygl 5(2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Rhwymedigaeth ar berson sy'n gyfrifol am labelu i roi gwybodaeth ar gael i'r awdurdod cymwys
Erthygl 9	Rheolaethau ar farchnata bwydydd anifeiliaid at ddibenion maethiadol penodol
Erthygl 11, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3), Atodiadau II a IV a'r Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid	Rheolau ac egwyddorion sy'n llywodraethu labelu a chyflwyno bwyd
Erthygl 12(4) a (5)	Dyletswydd ar weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid i weithredu â phob gofal dyladwy er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfedd â gofynion labelu ac i sicrhau bod manylion labelu gorfodol yn cael eu trosglwyddo drwy'r gadwyn fwyd ar ei hyd.
Erthygl 13(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Amodau cyffredinol ar honiadau ynghylch nodweddion neu swyddogaethau bwyd anifeiliaid wrth ei labelu neu ei gyflwyno

SCHEDULE 2 Regulation 3(4)

“SCHEDULE 1 Regulation 4(1)  
Specified Provisions of Regulation  
767/2009

<i>Specified provision</i>	<i>Subject matter</i>
Article 4(1)&(2), as read with Article 4(3) and Annex I	General safety and other requirements to be met when feed is placed on the market or used
Article 5(1)	Extension of requirements in relation to feed for food-producing animals in other legislation to apply to feed for non food-producing animals
Article 5(2), as read with Article 12(1),(2)&(3)	Obligation on person responsible for labelling to make information available to competent authority
Article 9	Controls on the marketing of feeds for particular nutritional purposes
Article 11, as read with Article 12(1),(2)&(3), Annexes II & IV and the Catalogue of feed materials	Rules and principles governing the labelling and presentation of feed
Article 12(4)&(5)	Duty of feed business operators to act with due care to help ensure compliance with labelling requirements and to ensure transmission of mandatory labelling particulars throughout the food chain.
Article 13(1), as read with Article 12(1),(2)&(3)	General conditions on making a claim about the characteristics or functions of a feed on the labelling or presentation of it



Erthygl 13(2) a (3), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Amodau arbennig sy'n gymwys i honiadau ynghylch gwneud yr eithaf o'r maethiad ac ynghylch cynnal neu warchod yr amodau ffisiolegol
Erthygl 14(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Y gofynion ar gyfer cyflwyno'r manylion labelu gorfodol
Erthygl 15, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3), Atodiad VI a VII ac Erthygl 21	Gofynion labelu gorfodol cyffredinol ar gyfer deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid cyfansawdd
Erthygl 16, fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac 21, Atodiad II a V a'r Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid	Gofynion labelu penodol ar gyfer deunyddiau bwyd anifeiliaid
Erthygl 17(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac 21 ac Atodiad II, VI a VII	Gofynion labelu penodol ar gyfer bwydydd anifeiliaid cyfansawdd
Erthygl 18, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Gofynion labelu ychwanegol ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddibenion maethiadol penodol (bwydydd anifeiliaid dietegol)
Erthygl 19, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Gofynion labelu ychwanegol ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes
Erthygl 20(1), fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac Atodiad VIII	Gofynion ychwanegol ar gyfer labelu bwyd anifeiliaid nad yw'n cydymffurfio, megis bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys deunyddiau a halogwyd
Erthygl 23	Gofynion sy'n ymwneud â phhecynnu a selio deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid cyfansawdd sydd i'w rhoi ar y farchnad
Erthygl 24(5)	Gofyniad os defnyddir enw deunydd bwyd anifeiliaid a restrir yn y Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid, fod rhaid cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol y Catalog

Article 13(2)&(3), as read with Article 12(1),(2)&(3)	Special conditions applying to claims concerning optimisation of the nutrition and support or protection of the physiological conditions
Article 14(1)&(2), as read with Article 12(1),(2)&(3)	Requirements for the presentation of the mandatory labelling particulars
Article 15, as read with Article 12(1),(2)&(3), Annex VI and VII and Article 21	General mandatory labelling requirements for feed materials and compound feeds
Article 16, as read with Articles 12(1),(2)&(3) and 21, Annex II and V and the Catalogue of feed materials	Specific labelling requirements for feed materials
Article 17(1)&(2), as read with Articles 12(1),(2)&(3) and 21 and Annex II, VI & VII	Specific labelling requirements for compound feeds
Article 18, as read with Article 12(1),(2)&(3)	Additional labelling requirements for feed for particular nutritional purposes (dietetic feeds)
Article 19, as read with Article 12(1),(2)&(3)	Additional labelling requirements for pet food
Article 20(1), as read with Article 12(1),(2)&(3) and Annex VIII	Additional requirements for labelling of non-compliant feed, such as that containing contaminated materials
Article 23	Requirements relating to the packaging and sealing of feed materials and compound feeds for placing on the market
Article 24(5)	Requirement that if the name of a feed material listed in the Catalogue of feed materials is used, all relevant provisions of the Catalogue must be complied with

Erthygl 24(6)	Rhwymedigaeth ar berson sy'n gosod ar y farchnad am y tro cyntaf ddeunydd bwyd anifeiliaid nad yw wedi'i restru yn y Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid i roi hysbysiad o'i ddefnyddio
Erthygl 25(4)	Gofyniad os dangosir y Codau Cymunedol ar arfer labelu da ar labelu, fod rhaid cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol y Codau.”

Article 24(6)	Obligation on a person who first places on the market a feed material not listed in the Catalogue of feed materials to notify its use
Article 25(4)	Requirement that if use of the Community Codes of good labelling practice is indicated on labelling, all relevant provisions of the Codes must be complied with.”

© 2013 Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2013 Rhif 3207 (Cy. 317)**

**2013 No. 3207 (W. 317)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid  
(Hylendid a Gorfodi) a Bwyd  
Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio)  
2013

The Feed (Hygiene and  
Enforcement) and the Animal Feed  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2013

£5.75

W1822/01/14

ON

ISBN 978-0-348-10851-4



9 780348 108514